

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau gwirfoddolwyr a chtmuneda

Cyfres o Bolisiau Enghreifftiol

## 4 Ad-dalu Treuliau



Ni fydd gwirfoddolwyr sy'n gweithio i [sefydliad] ar eu colled o ganlyniad i'w gwaith. Bydd treuliau parod a gymeradwyir yn cael eu talu ac ni ddylent effeithio ar geisiadau am fudd-daliadau na chyflwyno unrhyw oblygiadau cyfreithiol neu dreth eraill.

Gall gwirfoddolwyr hawlio treuliau parod pan fyddant yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â'u gwaith gyda CGGC. Bydd y treuliau sy'n cael eu talu yn gostau gwirioneddol a gafwyd. Dylid cefnogi pob cais am dreuliau gyda derbynebaw dilys fel tystiolaeth o wariant.

Dyma'r treuliau y mae hawl gan gwirfoddolwyr eu hawlio wrth weithio yn [enw'r sefydliad]:

- costau teithio i'r lle y mae'r gwaith gwirfoddol yn digwydd ac oddi yno
- costau teithio yn ystod y gwirfoddoli
- gellir talu am brydau bwyd a geir yn ystod gwirfoddoli lle mae gwirfoddolwr yn gweithio mwy na 4 awr yn barhaus (mae hyd at £5 yn cael ei gydnabod yn rhesymol)
- costau postio, deunydd ysgrifennu a ffôn
- gofal plant a dibynyddion eraill yn ystod y cyfnod o waith gwirfoddol (gweler drosodd)
- cost dillad amddiffynnol neu arbennig
- treuliau cymeradwy eraill

Os nad ydych yn siwr a yw gwariant yn ddilys, gofynnwch i'r rheolwr gwirfoddolwyr, neu eich person cyswllt ar y staff neu'r rheolwr Adnoddau Dynol.

Mae'r treuliau hyn yn unol â chanllawiau Cyllid y Wlad a'r Adran Gwaith a Phensiynau

## Cyfraddau ar gyfer hawlio Treuliau

### Teithio:

Caiff treuliau eu had-dalu am unrhyw deithio i'r lle y mae'r gwaith gwirfoddol yn digwydd ac oddi yno ac unrhyw deithio yn ystod y gwirfoddoli.

Caiff costau teithio eu had-dalu ar y cyfraddau canlynol:

- Prisiau cludiant cyhoeddus -

Caiff prisiau ail ddosbarth eu had-dalu os cyflwynir derbynebau/tocynnau.

- Lwfans Milltired –

<b>Lwfans Milltired</b>	<b>Ceir</b>	<b>Beiciau modur</b>	<b>Beiciau</b>
Am y 10,000 milltir gyntaf yn y flwyddyn ariannol	45c y filltir	24c y filltir	20c y filltir
Am bob milltir ychwanegol dros 10,000 milltir	25c y filltir	15c y filltir	-
Ar gyfer pob teithiwr a gludir, swm ychwanegol o	2c y filltir	-	-
<b>Trothwy milltired dyddiol</b>			
	<b>100 milltir</b>		
Ar bob milltir uwchlaw 100 milltir y diwrnod	25c y filltir	15c y filltir	-

Byddai [*Sefydliad*] yn annog defnyddio cludiant cyhoeddus lle bo hynny'n bosibl.

Gofal plant yn ystod y cyfnod o waith gwirfoddol

Os defnyddiwch ofal plant wrth wneud gweithgareddau i CGGC, efallai y gallwch hawlio'r gost, gofynnwch i'ch aelod staff cyswllt neu'r rheolwr Adnoddau Dynol. Os caiff ei gymeradwyo, rhaid i chi ddefnyddio darparwr gofal plant cofrestredig, er mwyn i chi hawlio'r gost hon yn ôl. Ad-delir costau gofal plant hyd at £5 yr awr y plentyn. Rhaid i chi gefnogi'r cais gyda dogfennau dilys (derbynebau, anfonebau neu daflenni amser) gan roi manylion dyddiad a hyd y ddarpariaeth gofal plant.

## **Talu treuliau**


I hawlio treuliau, dylech lenwi'r ffurflen hawlio treuliau atodedig. Cofiwch ofyn os oes angen unrhyw gymorth arnoch i lenwi'r ffurflenni.

Ar ôl eu llenwi, caiff treuliau eu prosesu cyn gynted â phosibl. Caiff ceisiadau dan £25.00 eu talu mewn arian parod, fel arall gyda siec.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl hawlio treuliau ymlaen llaw. Gofynnwch i'r rheolwr gwirfoddolwyr am fwy o fanylion.

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno

<p><b>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</b> <i>Ty Baltig, Sqwar Mount Stuart, Bae caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH</i></p> <p><b>Ffon:</b> 0800 2888 329      <a href="mailto:help@wcva.org.uk">help@wcva.org.uk</a> <b>Ffacs:</b> 029 2043 1701      <a href="http://www.wcva.org.uk">www.wcva.org.uk</a></p>	 <p>Ffon: 0800 2888 329 <a href="http://www.wcva.org.uk">www.wcva.org.uk</a></p>
<p>Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli</p> <p><b>Diweddarwyd: Mehefin 2014</b></p>	

**FFURFLEN HAWLIO TREULIAU**

Enw \_\_\_\_\_

<i>Dyddiad</i>	<i>Gweithgaredd-au</i>	<i>Teithio</i>				<i>Prydau Bwyd</i>	<b>Gofal Dibynyddio n</b>	<b>Ffôn/ Post</b>	<i>Arall</i>	<i>Cyfanswm</i>
		<b><i>Taith o</i></b>	<b><i>Taith i</i></b>	<b><i>Miltiredd</i></b>	<b><i>Cludiant Cyhoeddus / Parcio</i></b>					

Cyfanswm y cais £ \_\_\_\_\_

Llofnod y person a enwir uchod \_\_\_\_\_ Awdurdodwyd gan \_\_\_\_\_ Dyddiad \_\_\_\_\_

**Atodwch pob tocyn bws/trên ac unrhyw dderbynebau**

At ddefnydd swyddfa yn unig

Enw'r prosiect \_\_\_\_\_ Sefydliad \_\_\_\_\_